# SIAPIO DYFODOL GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

## DOGFEN DDRAFFT

## HAF 2009

## Cyflwyniad

Croeso i ymgynghoriad cyhoeddus Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Eleni, rydym ni wedi adnabod pedwar pwnc risg penodol i ymgynghori yn eu cylch cyn penderfynu ar ein Cynllun Lleihau Risg terfynol. Mae'r pedwar pwnc wedi cael eu dewis oherwydd bod posib iddyn nhw effeithio ar allu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel yn y tymor canolradd i'r tymor hir.

Mae'r tri cyntaf yn faterion sy'n canolbwyntio ar y graddau y dylai'r Awdurdod symud ymlaen mewn cyfeiriadau penodol. Mae'r pedwerydd yn fater o ymagweddiad, a sut, mewn hinsawdd ariannol heriol iawn, gall yr Awdurdod ddiogelu ei sefyllfa ei hunan wrth barhau i ymgymryd â'i rôl yn y sector cyhoeddus ehangach.

Mae risgiau yn cael eu rheoli gan aelodau a swyddogion fel rhan arferol o redeg y gwasanaeth, ond mae'r pedwar pwnc yma'n faterion pwysig o gyfeiriad tymor hir o fewn y broses cynllunio i leihau risg.

Os cytunir arnynt, bydd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu datblygu er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiectau yma dros y blynyddoedd nesaf.

Gan roi ystyriaeth i rai o'r sylwadau a dderbyniasom mewn ymgynghoriadau yn y gorffennol, rydym ni wedi ceisio disgrifio pob pwnc yn glir, gan roi digon o wybodaeth i chi allu llunio barn, heb eich boddi gyda gormod o fanylion.

I'r rhai hynny ohonoch sy'n hoffi rhagor o wybodaeth ac ystadegau gwreiddiol, rydym wedi cynnwys rhai ffynonellau gwybodaeth ychwanegol yng nghefn y ddogfen.

### SUT I GYMRYD RHAN

Hoffem i chi ddarllen y llyfryn hwn, gofyn i ni am y materion hyn os ydych chi'n dymuno, a gadael i ni wybod eich barn erbyn **Medi 4ydd 2009**. Mae manylion ar sut i ymateb ar dudalen 28.

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Pynciau Cynllunio i Leihau Risg eleni | 4 |
| Mae eich barn chi o bwys | 5 |
| Rhy dechnegol i bobl sydd ddim yn y proffesiwn? | 6 |
| Pethau sydd raid eu gwneud ac efallai y gallwn eu gwneud | 7 |
| Pwnc Cynllunio i Leihau Risg 1 – Gweithio gyda phobl ifanc | 8 |
| Pwnc Cynllunio i Leihau Risg 2 – Gwasanaeth Wrth Gefn y System Dyletswydd Ran Amser ar gyfer y Dyfodol | 11 |
| Pwnc Cynllunio i Leihau Risg 3 – Cyd Ymateb | 21 |
| Pwnc Cynllunio i Leihau Risg 4 – Ymagwedd Gyffredin i Arbed Arian | 25 |
| I Grynhoi... | 28 |
| Sut i ymateb | |
| Ffynonellau gwybodaeth bellach | |
| | |

## PYNCIAU CYNLLUNIO I LEIHAU RISG ELENI

Y pedwar prif bwnc sy'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yw:

**CLIR 1 – GWEITHIO GYDA PHOBL IFANC**
Rydym ni'n ystyried i ba raddau y gallwn barhau i ymestyn ein cyfraniad i ddatblygu dinasyddion da'r dyfodol.

**CLIR 2 – Y SYSTEM DYLETSWYDD RAN AMSER**
Rydym yn ystyried y problemau sy'n ein hwynebu yn y dyfodol o barhau i gefnogi system waith a ddyfeisiwyd mewn cyfnod pan oedd pobl yn byw bywydau gwahanol iawn.


**CLIR 3 – CYD-YMATEB**
Rydym ni'n ystyried y materion a'r rhwystrau sy'n ymwneud â'r rôl o fynychu argyfyngau meddygol sy'n fygythiad i fywyd ar gais y gwasanaeth ambiwlans.

**CLIR 4 – ARBED ARIAN**
Ar adeg pan fo'r sector cyhoeddus cyfan yn ceisio arbed arian, rydym ni'n ystyried strategaeth yr awdurdod i gyflwyno gwasanaethau fforddiadwy ar gyllideb gyfyngedig.

**GWASANAETH CYHOEDDUS YW HWN– MAE EICH SAFBWYNTIAU CHI O BWYS I NI**

Mae eich safbwyntiau chi fel aelodau o'r cyhoedd o bwys oherwydd bod rhedeg gwasanaeth tân ac achub heddiw yn golygu mwy nag ymateb i ddigwyddiadau brys yn unig.

Yng Nghymru, mae pwyslais arbennig ar gydweithrediad effeithiol rhwng y gwasanaethau cyhoeddus, a hynny er mwyn cefnogi ac adeiladu cymunedau cryf – felly mae mwy o bobl na'r rhai gafodd dân yn dangos diddordeb yn yr hyn y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud.




Rydym ni'n o'r farn fod ein llwyddiant yn cynyddu pan fo'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaeth tân ac achub yn rhan o siapio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Po fwyaf o bobl sy'n cyfranogi, gorau oll fydd ein gobeithion o gael y cydbwysedd iawn.

**RHY DECHNEGOL I BOBL SYDD HEB FOD YN Y PROFFESIWN?**

Na, dim o gwbl.  Mae'r cwestiynau rydym ni'n eu gofyn fel rhan o'r ymgynghoriad yn ymwneud â chyfeiriad strategol y gwasanaeth cyfan yn hytrach na materion technegol y gwasanaeth.

Yn anorfod, bydd penderfyniadau mawr am y gwasanaeth yn dibynnu ar y gallu i'w fforddio yn y pen draw - felly rydym eisiau gwybod beth rydych chi'n disgwyl ei gael am eich arian, pa agweddau o'r gwasanaeth allai gael ei ymestyn, a sut dylid talu am welliannau i'r gwasanaeth.

Felly, pan fyddwn ni'n dod i ddefnyddio arbenigedd technegol a phroffesiynol wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl i'r Gwasanaeth, gallwn fod yn hyderus y byddan nhw'n cyflwyno'r hyn y mae pobl Gogledd Cymru'n ei ddisgwyl.

## PETHAU SYDD RAID EU GWNEUD AC EFALLAI Y GALLWN EU GWNEUD

Mae'r gwasanaeth tân ac achub heddiw yn cyflwyno amrediad o wasanaethau llawer mwy soffistigedig nag ymateb i argyfyngau'n unig.

Fel y gallwch chi ddisgwyl, mae rhai pethau sy'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i awdurdodau tân ac achub eu gwneud, ond mae llawer o bethau mae'r awdurdodau tân ac achub yn gallu penderfynu eu gwneud eu hunain yn ôl amgylchiadau. Gallwn ni alw'r rhain yn bethau sydd raid eu gwneud a phethau y gallwn, efallai, eu gwneud.

Er enghraifft, cyn newid y gyfraith yn 2004, nid oedd ar awdurdodau tân ddyletswydd absoliwt i fynychu gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd oni bai fod tân. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn dewis gwneud hynny, oherwydd eu bod wedi eu hargyhoeddi o'r fantais ehangach oedd yn dod o wario arian o gyllideb diffodd tân yn hyfforddi diffoddwyr tân i ryddhau pobl o ddamweiniau ceir.

Mae'r deddfau presennol yn caniatáu i'r llywodraeth gyfarwyddo'r awdurdodau tân ac achub i ymgymryd â mathau penodol o weithgareddau, ond mae elfen o ddisgresiwn yn parhau gyda phob awdurdod tân ac achub.

**Prif bwyslais yr ymgynghoriad eleni yw'r risgiau sy'n ymwneud â chyflwyno'r 'pethau y gallem eu gwneud' wrth wella'r 'rhai y mae'n rhaid eu gwneud', a hynny mewn hinsawdd economaidd anodd.**

## PWNC 1 – GWEITHIO GYDA PHOBL IFANC

**Nid ymateb i argyfyngau'n unig wna'r gwasanaeth tân ac achub – mae'n cynorthwyo i adeiladu cymunedau hefyd.**

Rydym ni'n falch iawn o'r gwaith rydym ni'n ei wneud gyda phobl ifanc, a'r ffordd rydym ni wedi cyfrannu'n llwyddiannus i gefnogi dinasyddiaeth dda ers nifer o flynyddoedd. Mae personél gwasanaeth a thân yn uchel eu parch, ac yn cysylltu'n dda gyda phobl ifanc.

Mae'r mwyafrif o'n gwaith ieuenctid yn syrthio y tu allan i'r categori o bethau sy'n 'rhaid eu gwneud', a dyma pam ein bod ni wedi ei adnabod fel pwnc yn y cynllun lleihau risg.

Rydym ni'n gwybod fod mantais fawr o ymestyn ein gwaith gyda phobl ifanc, ond rydym ni'n cydnabod hefyd nad oes modd gwneud hyn i'r graddau nes ei fod yn dechrau amharu ar ein gweithgareddau craidd. Dyma pam ein bod ni wedi ei gynnwys yn ein Cynllun Lleihau Risg - rhaid ystyried y goblygiadau o gynyddu ein hymwneud â'r maes hwn.

Mae annog dinasyddion da a chadw pobl ifanc yn ddiogel ar ein ffyrdd yn gostwng nifer y digwyddiadau y mae'n rhaid i'r gwasanaeth tân ac achub ymateb iddynt, ond mae hefyd yn cyfrannu at bolisïau cymdeithasol megis addysg, iechyd a lles, a pholisïau economaidd megis busnes a thwristiaeth.

**NODYN am Addysg Diogelwch Tân Cymunedol**

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi athrawon cymwys i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr sy'n golygu rhwng pedwar cant a phum cant o ymweliadau addysgiadol i ysgolion yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn, a hynny i hyrwyddo diogelwch tân ymysg plant o oedran ysgolion cynradd ac uwchradd.

Yn wahanol i fentrau eraill a ddisgrifir yn yr adran yma, mae'r gwaith yn syrthio'n uniongyrchol o dan y ddyletswydd statudol i hyrwyddo diogelwch tân, ac felly, mae'n un o swyddogaethau craidd yr awdurdod, ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**ENGHREIFFTIAU O SUT MAE GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN CYNORTHWYO POBL IFANC I DDOD YN DDINASYDDION GWELL**

Nid yw ein rhaglenni ieuenctid yn ymwneud â recriwtio pobl i'r gwasanaeth tân ac achub, ac nid yw'n ffurfio unrhyw ran o swyddogaeth graidd statudol uniongyrchol yr awdurdod i hyrwyddo diogelwch tân.

Nod y mentrau yma yw cynorthwyo i wneud dinasyddion gwell, na fydd yn creu sefyllfaoedd a fydd yn galw am ymyrraeth y gwasanaeth tân ac achub, megis tanau bwriadol neu yrru diofal.

**Prosiectau'r Ffenics**

Prif ddiben Prosiectau'r Ffenics yw mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc. Mae cyrsiau'r Ffenics yn dod â phobl ifanc at ei gilydd i dreulio hyd at bum diwrnod gyda staff y gwasanaeth tân ac achub. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig sy'n ymwneud ag adeiladu tîm a chynyddu hyder, a dysgu ychydig am y Gwasanaeth ei hunan. Mae'r cyrsiau yma'n dysgu gwerthodd cymunedol drwy helpu'r cyfranogwyr i gael mwy o ysgogiad a theimlo'n fwy cadarnhaol amdanyn nhw'u hunain, sydd yn ei dro yn eu gwneud yn ddinasyddion gwell.

Yr hyn sy'n gwneud Prosiectau'r Ffenics yn wahanol i'r gwaith ardderchog arall a wneir gyda phobl ifanc mewn ysgolion, a gan asiantaethau eraill, yw eu bod yn cael ymateb gwahanol iawn gan gyfranogwyr sydd wedi dechrau colli hyder oherwydd eu profiadau bywyd. Rhoir y cyfle i bobl ifanc, nad ydynt yn perthyn i unrhyw dimau neu glybiau neu weithgareddau wedi eu strwythuro, gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu strwythuro mewn amgylchedd disgybledig a chefnogol. Mae profiad wedi dangos bod mwyafrif y cyfranogwyr, ar ôl cymryd rhan yn y prosiectau yma, yn ymgymryd eto ag addysg, ac yn mynd yn eu blaenau i fyw bywydau cynhyrchiol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £177,600 i'r Awdurdod yn gymorth i gwrdd â chost cyflogi Gweithiwr Ieuenctid, a rhedeg prosiectau'r Ffenics yng Ngogledd Cymru yn 2009-10. Fodd bynnag, gan nad oes sicrwydd y byddwn yn derbyn cyllid allanol yn y blynyddoedd i ddod, bydd raid inni ystyried sut y gallem ymdopi hebddo.

**Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE)**

Mae FACE yn gynllun arbenigol sydd wedi ei anelu at blant hyd at 11 oed sydd efallai wedi dangos, neu mewn perygl o ddatblygu, diddordeb cyfareddol peryglus mewn tân. Efallai bod atgyfeiriadau i'r rhaglen yn seiliedig ar brofiad o arbrofi gyda thân yn y gorffennol, neu ar gyngor

proffesiynol fel modd o ailgyfeirio proffil ymddygiad unigol plentyn. Mae'r rhaglen, sydd wedi ei mabwysiadu gan nifer o wasanaethau tân ac achub, yn ceisio cael y plentyn a'i deulu i gymryd rhan mewn rhaglen i addysgu am y peryglon o chwarae gyda matsis neu gynnau tân yn fwriadol.

**Diogelwch Tân (Fire Safe)**

Mae Fire Safe yn fenter eithaf diweddar yng Ngogledd Cymru, ac yn estyniad o raglen FACE i blant hŷn a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed sy'n dangos diddordeb cyfareddol amhriodol mewn tanau. Mae pob cwrs yn cael ei redeg dros 10 sesiwn sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo newid agwedd ac ymddygiad, ac ar annog pobl ifanc i fabwysiadu safiad mwy cadarnhaol drwy ddeall effeithiau dinistriol cynnau tanau'n fwriadol.

**Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc**

Mae'r gymdeithas hon yn cael ei rhedeg gan wasanaethau tân ac achub drwy'r DU. Mae canghennau yn cael eu rhedeg gan weithwyr y gwasanaeth tân ac achub a gwirfoddolwyr, ac yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc rhwng 11 ac 17 gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau yn un o leoliadau'r gwasanaeth tân ac achub, gan eu helpu i ddatblygu disgyblaeth, rhinweddau arweinyddiaeth, ymwybyddiaeth gymdeithasol a chymunedol. Rydym nawr yn gweld aelodau yn dychwelyd fel arweinwyr y genhedlaeth nesaf o'r gymdeithas yng Ngogledd Cymru.

**Elusennau Ieuenctid**

Rydym ni hefyd yn ystyried i ba raddau y gallwn ni gynyddu ein cefnogaeth i amrediad o elusennau ieuenctid fel:

**Ymddiriedolaeth y Tywysog** sy'n helpu pobl rhwng 14 a 30 sy'n cael trafferth yn yr ysgol, sydd wedi bod mewn gofal, wedi bod yn ddi-waith ers amser hir neu wedi bod mewn trafferth gyda'r gyfraith.

**Cynllun Dug Caeredin** sydd ar gyfer datblygu pobl ifanc rhwng 14 a 24 oed i fod yn bobl gyfrifol ac aeddfed.

**Cwestiwn Ymgynghori**

**Petai cyllid allanol ar gyfer gwaith ieuenctid yn cael ei dynnu oddi arnom, a ddylai'r Awdurdod roi'r gorau i'w weithgareddau ieuenctid, ynteu a ddylai ailgyfeirio adnoddau o'i wasanaethau eraill - rhai rheng flaen o bosib - er mwyn gallu parhau â'r gwaith hwn?**

**Pwnc 2 – Gwasanaeth Wrth Gefn y System Dyletswydd Ran Amser ar gyfer y dyfodol**

**Sut mae'r System Dyletswydd Ran Amser yn gweithio**

Mae'r system dyletswydd rhan amser yn system sydd wedi hen sefydlu, i gyflogi diffoddwyr tân mewn ardaloedd lle mae nifer y galwadau brys yn eithaf isel.

Mae'r mwyafrif o weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bersonél y System Dyletswydd Ran Amser – dynion a merched sydd wedi eu hyfforddi fel diffoddwyr tân i ddelio â'r un amrediad o sefyllfaoedd â'u cydweithwyr llawn amser, ac sydd wedi ymrwymo i fod 'ar alwad' am hyd at 120 awr yr wythnos i ymateb i alwadau brys.

Mae personél y System Dyletswydd Ran Amser yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth tân ac achub yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu gwasanaethau proffesiynol, cost-effeithiol, a hynny yng nghalon ein cymunedau lleol.

Mae gan lawer o bersonél y System Dyletswydd Ran Amser swyddi llawn neu ran amser mewn amrywiaeth o alwedigaethau, ond pan fydd eu teclyn rhybuddio yn canu, mae ganddynt 5 munud ar y mwyaf i gyrraedd eu gorsaf dân leol yn barod i ffurfio rhan o'r tîm ar y peiriant tân.

**Sut mae personél y system dyletswydd ran amser yn cael eu talu**

Mae personél ar y system dyletswydd ran amser, sy'n ymrwymo i uchafswm o 120 awr yr wythnos, yn derbyn:

- ffi cadw flynyddol sydd oddeutu 10% o gyflog sylfaenol blynyddol eu cyfwerth ar y system dyletswydd lawn amser;
- yr un cyflog yr awr â'u cyfwerth ar y system dyletswydd lawn amser;
- ffi safonol yn ogystal â lleiafswm o gyflog hanner awr am bob tro maen nhw'n mynd i'r orsaf dân i ymateb i'w teclyn rhybuddio.

Mae personél y system dyletswydd ran amser yn mynychu eu gorsaf dân leol unwaith yr wythnos am dair awr o hyfforddiant ac o bryd i'w gilydd, maen nhw'n darparu gwasanaeth wrth gefn neu'n mynychu digwyddiadau sydd y tu allan i ardal eu gorsaf dân eu hunain. Maent hefyd yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant fel bo'r angen.

Does dim posib gostwng y ffi cadw flynyddol fwy na 25%, ni waeth faint o oriau 'ar alwad' y mae personél y System Dyletswydd Ran amser yn cytuno i'w ddarparu.

## Dibyniaeth eang ar y System Dyletswydd Rhan Amser yng Ngogledd Cymru

Mae 44 gorsaf dân yng Ngogledd Cymru, ac maen nhw oll yn darparu lleoliad ar gyfer o leiaf un injan dân, sydd fel arfer yn cael ei chriwio gan dîm o ddiffoddwyr tân rhan amser.

Mae wyth o blith y 44 gorsaf dân hefyd yn darparu lleoliad ar gyfer o leiaf un injan dân sy'n cael ei chriwio fel arfer gan dîm o ddiffoddwyr tân llawn amser.

## Cost y Diffoddwyr Tân Rhan Amser

Mae'r gost o ddarparu gorsaf dân ran amser yn llawer llai na gorsaf dân lawn amser, ond gall costau staffio amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar nifer y digwyddiadau a fynychir, a'r rheini'n ymwneud â'r tywydd yn bennaf..

Y rheswm dros gynnwys y System Dyletswydd Ran Amser yn ein Cynllun Lleihau Risg yw nid yn gymaint y gost, ond y gallu i gynnal gwasanaeth wrth gefn yn y gorsafoedd tân tawelaf dros y ddeng neu'r ugain mlynedd nesaf.

## PAM EI BOD HI'N ANODD DARPARU GWASANAETH WRTH GEFN 24 AWR YNG NGORSAFOEDD TÂN Y SYSTEM DYLETSWYDD RAN AMSER

### Cefndir Hanesyddol

Os ydych chi erioed wedi ystyried pam fod gan rai trefi a phentrefi orsaf dân ond eraill ddim - mae hyn o ganlyniad i benderfyniadau lleol a ffurfiad naturiol gwirfoddolwyr tân lleol yn y gorffennol, pan nad oedd gan bobl fynediad i dechnoleg fodern i gefnogi eu penderfyniadau cynllunio. Roedden nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio pobl leol i amddiffyn eiddo lleol ar adeg pan nad oedd pobl, yn gyffredinol, yn teithio'n bell iawn o'u cartref.

Rhwng 1948 a 2004, roedd penderfyniadau oedd yn effeithio ar nifer a lleoliad gorsafoedd tân yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y broses hir o wneud cais ac ymchwiliad cyhoeddus yn golygu bod y rhan fwyaf o awdurdodau wedi dewis osgoi tarfu ar yr hyn oedd yn ei le eisoes ar ddiwedd yr ail ryfel byd.

Felly, er bod ffyrdd, adeiladau, yr hinsawdd, y ffordd mae pobl yn byw a'r mannau mae pobl yn gweithio mewn perthynas â'u cartrefi, wedi newid yn fawr iawn, mae lleoliad gorsafoedd tân Gogledd Cymru yn debyg iawn i'r hyn oedd yn bodoli ar ddiwedd yr ail ryfel byd.

(Insert map of North Wales showing locations of stations)

**Pan fod y cefndir hanesyddol yn berthnasol i'r system dyletswydd ran amser heddiw?**

Mae'r cefndir hanesyddol yn berthnasol gan fod telerau presennol y system dyletswydd ran amser yn dibynnu ar a) parodrwydd a b) gallu pobl i aros yn agos at eu gorsaf dân rhan amser am hyd at 120 awr yr wythnos a gallu gadael yr hyn maen nhw'n wneud ar unwaith os bydd y teclyn rhybuddio yn canu.

Mae anhyblygrwydd y system dyletswydd ran amser fel patrwm o weithio wedi cael ei amlygu'n genedlaethol fel rhan o'r broblem o recriwtio a chadw. Mae rhai o'n gorsafoedd tân rhan amser yn ymateb i lai nag un alwad yr wythnos, ond rhaid i ddiffoddwyr tân barhau i fod ar gael i gynnal criw llawn yn yr ardal, oherwydd gallent gael eu galw ar unrhyw adeg.

**a) Y bobl iawn yn y llefydd iawn**

Nid yw pawb mor gefnogol i weithgareddau'r gymuned â'n staff system dyletswydd ran amser a'u prif gyflogwyr, ond hefyd, nid oes gan bob cymuned dai a chyflogaeth i'w gynnig i bobl o fewn radiws 4 neu 5 munud o'r orsaf dân, ac nid pob cyflogwr sy'n gallu fforddio colli staff yn sydyn yng nghanol diwrnod gwaith.

Mae ffigyrau'r llywodraeth yn dangos bod pellter teithio cyfartalog y flwyddyn yng Nghymru ar gyfer busnes a rhesymau masnachol, wedi cynyddu, rhwng 1995 a 2005, o 1,905 milltir i 2,012 milltir y person.

Yn fwy arwyddocaol efallai, syrthiodd nifer y teithiau byr i'r gwaith, gyda nifer y teithiau hyd at 10 milltir yn codi, sy'n dynodi fod pobl nawr yn gweithio ymhellach o'u cartrefi.

**b) Amser i weithio ac amser i orffwys**

Yn 2003/04, comisiynwyd adolygiad cenedlaethol o'r system dyletswydd ran amser yng Nghymru a Lloegr gan Swyddfa'r Prif Weinidog, i edrych ar recriwtio tymor hir a'r heriau oedd yn wynebu awdurdodau tân ac achub o ran cadw staff.

Cydnabuwyd bod y mater o ymrwymiad amser yn un anacronistaidd yn y gymdeithas heddiw, ac fe welwyd bod effaith unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i gael gwared â'r hawl i hepgor y cyfwng gweithio 48 awr yr wythnos o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn broblem.

Pan gynlluniwyd y system dyletswydd ran amser yn yr 1950au, roedd y gymdeithas, a llawer o'r normau cymdeithasol, yn wahanol iawn i'r hyn sy'n bodoli heddiw.

| 1950au | Heddiw |
|---|---|
| Pobl yn byw ac yn gweithio yn yr un lleoliad. | Ychydig iawn o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr un dref/pentref. Mae pobl yn teithio pellteroedd hir i'r gwaith. |
| Cyflogwyr yn barod i ryddhau gweithiwr i fynychu digwyddiadau. | Mae rhai cyflogwyr yn deall anghenion diffoddwyr tân y system dyletswydd ran amser, ond nid yw llawer yn barod i ryddhau staff oherwydd economi eu busnes. |
| Pobl yn cymdeithasu'n agos i'r ardal maen nhw'n byw ac yn gweithio. | Mae pobl yn teithio yn ystod amser i ffwrdd o'r gwaith un ai i wneud gweithgareddau hamdden neu i gwrdd â theulu a ffrindiau. |
| Mae ymrwymiadau teuluol yn agos at adref. | Mae llawer o weithgareddau plant yn digwydd i ffwrdd o ardal y cartref ac angen cefnogaeth y rhieni i'w cludo. |
| Nid ystyrid bod cymdeithasu, gan gynnwys yfed alcohol, yn annerbyniol mewn perthynas â gweithio. Felly, nid oedd ond ychydig iawn o angen ymatal rhag alcohol mewn digwyddiadau cymdeithasol. | Mae'r safle cyfreithiol wedi newid, yn ogystal â goddefgarwch cymdeithasol. Mae bod ar gael ar gyfer dyletswydd nawr yn golygu peidio ag yfed alcohol o gwbl. Mae hyn yn arwain at amser ychwanegol yn rhydd o ddyletswydd a chyfnodau hirach o beidio â bod ar gael. |
| Un swydd gydol oes, yn lleol o bosib. Diwylliant o weithio oriau hir. | Cyfyngiadau ar oriau gwaith, cyngor ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. |

O ddogfen "The Fire and Rescue Service Retained Duty System – A Review of the Recruitment and Retention Challenges." Cyhoeddwyd mis Chwefror 2005.

## SUT MAE'R ANAWSTERAU YMA'N EFFEITHIO AR Y GWASANAETH NAWR

Yn aml iawn heddiw, mae gennym ni orsaf dân ac injan dân ar gael, ond ddim criw. Y term a ddefnyddir yw `oddi ar y ffordd'. Dros y blynyddoedd, rydym ni wedi arfer gyda threfnu gwasanaeth wrth gefn i'r gorsafoedd hynny sydd oddi ar y ffordd oherwydd nad oes digon o bersonél y system dyletswydd rhan amser ar gael ar amser penodol. Effeithir ar rai ardaloedd yn waeth nag eraill, ac mae dyddiau'n waeth na nosweithiau a phenwythnosau.

Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio.

- **Ai oherwydd nad yw'r Awdurdod yn cyflogi digon o bersonél ar y System Dyletswydd Ran Amser?**

Nid ydym ni'n credu mai dyma'r rheswm. Mae 45 o'r peiriannau tân sy'n cael eu criwio gan staff y system dyletswydd ran amser yng Ngogledd Cymru angen o leiaf pedwar diffoddwr tân cymwys arnynt er mwyn gweithredu'n ddiogel. Mae'r Awdurdod yn cynnal 557 o swyddi ar y System Dyletswydd Ran Amser (fel unedau 24 awr o wasanaeth wrth gefn), ond, er hyn, mae cadw'r 45 o'r peiriannau tân `ar y ffordd' trwy'r amser yn anodd iawn, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif o bobl yn gorfod teithio nifer o filltiroedd i'w prif gyflogaeth.

Ni fyddai cynyddu'r nifer o bersonél ar y system dyletswydd ran amser, o reidrwydd, yn datrys y broblem o fylchau mewn gwasanaeth.

- **Ai oherwydd nad yw'r Awdurdod yn cyflogi'r bobl iawn?**

Dim o gwbl. Mae ein personél System Dyletswydd Ran Amser yn bobl ymroddedig sy'n gofalu am y cymunedau maen nhw'n eu hamddiffyn, ond mae aros yn agos at yr orsaf dân am 120 awr yr wythnos yn gofyn am lawer o ymroddiad ac arddull byw sy'n eich caniatáu i wneud hynny.

Oherwydd anhyblygrwydd telerau ac amodau cenedlaethol y System Dyletswydd Ran Amser, a'r pwyslais fod raid i'r Awdurdod dalu ddim llai na 75% o'r uchafswm oriau (h.y. 90 awr yr wythnos), nid yw pobl yn awyddus oherwydd nid ydyn nhw'n gweld oriau hir yn beth atyniadol.

Cymerwch flwyddyn 2007-08 er enghraifft. Fe wnaethom ni ddenu 129 o geisiadau am swyddi ar y system dyletswydd ran amser. Penodwyd 50 yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn yr un flwyddyn, gadawodd 47, gyda 23 yn nodi rhesymau personol neu waith. Dywedodd 5 eu bod yn symud allan o'r dalgylch, a 9 yn newid eu prif gyflogaeth.

Felly, er ymdrechion cyson i recriwtio pobl newydd i weithio ar y system dyletswydd ran amser, fe wnaethom ni golli bron cymaint ag y gwnaethom eu hennill.

Roedd y flwyddyn flaenorol yn well, penodwyd 106 a cholli 41, ond mae hyn yn parhau yn drosiant uchel o staff i ddelio ag ef.

- **Pam mor ddrwg allai pethau fod?**

Wrth reoli'n ofalus, mae'r gwasanaeth yn gallu cadw peiriannau tân y system dyletswydd ran amser "ar y ffordd" am oddeutu 94% o'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn arbennig yn gorfod wynebu cyfnodau hir pan fo gwasanaeth wrth gefn yn gorfod dod o ardaloedd eraill. Mae argaeledd dydd rhai criwiau'r system dyletswydd ran amser yn gallu syrthio i lai na 20% y mis.

Mewn blwyddyn safonol o 365 diwrnod, mae 8760 o oriau. Os yw hynny'n cael ei luosi gyda 45 peiriant tân y system dyletswydd ran amser, mae'n rhoi'r ffigwr o 394,200 awr o wasanaeth y flwyddyn. Hyd yn oed os yw diffyg argaeledd yn cael ei gadw i 6% yn unig, mae hyn yn dal i olygu 23,652 awr "oddi ar y ffordd".

## DEWISLEN O DDATRYSIADAU POSIB

Er bod y cyhoedd yn cael eu sicrhau bod yna wasanaeth wrth gefn effeithiol, nid yw'r rhagolygon tymor hir o barhau i ddarparu gwasanaeth wrth gefn drwy'r system dyletswydd ran amser yn beth mor galonogol.

Mae nifer o ddatrysiadau posib neu ddatrysiadau rhannol wedi cael eu hawgrymu'n genedlaethol, ond nid yw'r rhan fwyaf wedi cael eu hasesu'n llawn i weld a fyddent yn cael yr effaith ddymunol yng Ngogledd Cymru.

Bydd strategaeth tymor hir yr Awdurdod i ostwng y risg hwn yn cynorthwyo i siapio cynlluniau gweithredu'r dyfodol.

Y nod eithaf yw sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaeth tân wrth gefn mwyaf effeithiol drwy Ogledd Cymru, a fydd mor effeithiol ag sy'n bosib. Gallai hyn olygu bod rhaid i ni wneud pethau'n wahanol.

Dyma rai o'r datrysiadau a awgrymwyd:

- **Ehangu'r gronfa o ymgeiswyr**

Trwy annog mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol i ymgeisio i fod yn ddiffoddwyr tân ar y system dyletswydd ran amser, gellid cael ffordd i ddelio â'r broblem o ddarparu gwasanaeth wrth gefn yn ystod y dydd mewn ardaloedd sydd heb fod yn ganolfannau naturiol i gyflogaeth.

Nid yw hyn yn golygu fod safonau'n disgyn, ond mae'n golygu newid delwedd y gwasanaeth, a chyflwyno rhagor o hyblygrwydd a chyfleustra i'r pecyn cyflogi. Trwy hyn, gellir gwella'r gwasanaeth wrth gefn gyda phobl sy'n gweithio neu'n byw yn agos at orsafoedd tân sydd yn y gorffennol wedi eu hatal rhag ymgeisio oherwydd eu canfyddiad stereoteip o ddiffodd tân, neu ddiffyg opsiynau gwaith hyblyg.

Dewis arall fyddai bod yn fwy hyblyg wrth gyflogi pobl a allai ymateb i alwadau o rywle y tu hwnt i'r parth 5 munud o gwmpas gorsaf dân.

- **Symud i ffwrdd o'r ymagwedd lle mae 'un maint yn ffitio pawb'**

Byddai gwrthod y ffyrdd safonol o fynd ati, a ffafrio datrysiadau mwy arloesol, yn rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod gwrdd â phwysau gwahanol sy'n effeithio ar y gwasanaeth wrth gefn mewn ardaloedd gwahanol e.e. yn bennaf mewn ardaloedd ffermio cefn gwlad yn hytrach na phentrefi bychan sy'n agos at ganolfannau masnach.

Ar hyn o bryd, mae'r system dyletswydd ran amser yr un fath ym mhob rhan o'r DU. Mae mynnu na ellir gostwng y tâl cadw 100% ond i 75% (ond

ddim is) yn cyfyngu'r cyfle i gynnig swyddi i bobl efallai a fyddai ar gael am ychydig oriau'r wythnos neu a fyddai'n ffafrio gweithio yn ystod amser tymor neu drefniadau eraill sy'n cyd-fynd â phatrymau gwaith hyblyg heddiw.

- **Defnyddio staff llawn amser i lenwi'r bylchau yng ngwasanaeth wrth gefn y system dyletswydd ran amser**

Efallai fod hwn yn ddatrysiad dros dro cyfleus, ond nid yw'n darparu datrysiad tymor hir i'r anawsterau sylfaenol gyda'r system dyletswydd ran amser.

Yn ogystal â bod yn ddrud, mae'n gallu tarfu'n fyr rybudd ar waith sydd wedi ei gynllunio, a hynny am gyfnodau amhenodol o amser.

- **Cynyddu cefnogaeth i bersonél y System Dyletswydd Ran Amser**

Un o'r rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â gweithio ar system dyletswydd sydd wedi ei llunio o gwmpas ymateb i ddigwyddiadau brys a mynychu 'noson ymarfer' wythnosol, yw'r holl waith dal i fyny gydag astudiaethau, diweddaru cofnodion hyfforddi a bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, yn enwedig os oes raid i griw cyfan rannu un cyfrifiadur mewn swyddfa fechan mewn gorsaf dân.

- **Peidio â cheisio cael argaeledd llawn**

Anaml y mae cymunedau'n ystyried eu gorsaf dân leol yn ddim mwy na garej neu swyddfeydd, ac mae ganddynt ymlyniad emosiynol tuag atynt. Nid yw'r ffaith nad oes criw'r System Dyletswydd Ran Amser ar gael am adegau hir i'w weld yn beth sy'n lleihau'r ymlyniad hwn, ac mae'n well gan bobl ganolbwyntio ar yr ochr gadarnhaol, sef pan fo criwiau'r System Dyletswydd Ran Amser ar gael.

Fel Awdurdod, gallwn ddeall yr ymlyniad emosiynol hwn at yr orsaf dân leol, ond mae dyletswydd arnom i Ogledd Cymru i gyd i ystyried p'un ai yr ydym yn darparu'r sicrwydd gwasanaeth gorau drwy'r amser.

Y ffordd fyddai orau gennym ni fyddai i gefnogi'r System Dyletswydd Ran Amser fel ffordd i ddarparu sicrwydd gwasanaeth, ac rydym wedi ymrwymo i hyn cyhyd ag y gellir rhagweld. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, er yn gyndyn, y bydd raid inni, ryw ddydd, orfod derbyn nad yw rhai o orsafoedd tân y System Dyletswydd Ran Amser yn y llefydd iawn er mwyn sicrhau argaeledd llawn, ac ystyried pa newidiadau parhaol y gallwn eu gwneud i'r ffordd yr ydym yn darparu sicrwydd gwasanaeth yn yr ardaloedd hynny.

- **Mwy o greadigrwydd o ran y mannau y mae'r peiriannau tân yn cychwyn ohonynt**

Er ei bod hi'n arferol mapio ardal gwasanaeth mewn perthynas â'r lle mae'r peiriannau tân wedi eu lleoli, mae systemau mapio modern a systemau anfon allan yn gallu adnabod ac anfon yr adnodd agosaf sydd ar gael i ddigwyddiad brys. Mae technoleg fodern yn gallu defnyddio patrymau digwyddiadau'r gorffennol i ragweld amseroedd a lleoliadau cyfnodau prysur.

Fel rhai o'r datrysiadau eraill, gallai'r ffordd hon ddatrys y problemau o ran bylchau mewn gwasanaeth, ond nid yw'n taclo anacroniaeth y system dyletswydd ran amser bresennol.

- **Cynnig model gwahanol o dalu**

Mae rhai awdurdodau wedi cyflwyno cynlluniau cyflog i gymryd lle'r model `ffi cadw + ffi troi allan', a hynny er mwyn ceisio datrys y broblem o ostwng cyflog yn raddol wrth i'r nifer o alwadau brys ostwng. Rhai o'r anawsterau sydd wedi codi o hyn yw cost uchel iawn cyflwyno cynllun o'r fath mewn ardaloedd gyda nifer uchel o bersonél ar y system dyletswydd ran amser, a chwynion gan griwiau sy'n cael eu galw allan yn eithaf rheolaidd nad ydyn nhw'n cael dim mwy o dâl na'u cydweithwyr mewn ardaloedd tawelach.

Cwestiwn Ymgynghori

**Ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod ailgyfeirio adnoddau o'i weithgareddau eraill, a chynyddu hyblygrwydd yn y ffordd y mae'n cyflogi staff ar y System Dyletswydd Ran Amser, a hynny er mwyn cynnal a gwella argaeledd criwiau tân mewn ardaloedd gwledig?**

Pwnc 3 – CYD YMATEB

*"Gall y rhan fwyaf o drawiadau ar y galon gael eu trin yn llwyddiannus os rhoddir help meddygol ar unwaith. Y cynharaf y cewch driniaeth, y mwyaf effeithiol fydd hi a'r mwyaf fydd y siawns o oroesi.."* GIG Cymru

Pan fo rhywun yn dioddef argyfwng meddygol sy'n fygythiad i fywyd, maen nhw angen sylw brys mor gyflym ag sy'n bosib er mwyn cael y cyfle gorau i oroesi. Mae oediad yn gallu golygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw.

Er bod y Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru yn anelu i gyrraedd yr hyn maen nhw'n alw'n alwadau `categori A' o fewn ychydig funudau, fe allent fod yn hwyr am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys tywydd drwg a lleoliadau anghysbell.

Mae rhywun sy'n dioddef ataliad y galon yn gallu colli ymwybyddiaeth mewn mater o eiliadau, ac oni bai fod rhywun yn cychwyn adfywiad cardio-anadlol o fewn tri neu bedwar munud, gallai ddioddef niwed parhaol i'r ymennydd ac organau eraill. Mae diffibrilio cynnar a chynhaliaeth bywyd sylfaenol yn gallu cynyddu'r siawns o oroesi'n fawr iawn.

Mae cynlluniau **Ymatebwyr Cyntaf** yn defnyddio gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi gan y Gwasanaeth Ambiwlans i ymateb i argyfyngau brys yn eu cymunedau yn ôl cais y Gwasanaeth Ambiwlans ac i ddarparu gofal i'r claf nes i'r ambiwlans gyrraedd.

Yn yr un modd, mae cynlluniau **Cyd Ymatebwyr** yn defnyddio'r gwasanaeth tân ac achub i ymgymryd â'r rôl yma, gan weithredu fel asiant i Ymddiriedolaeth Ambiwlans drwy bartneriaeth ffurfiol, a defnyddio gweithwyr cyflogedig yn hytrach na gwirfoddolwyr. Mae nifer o'r fath gynlluniau'n bodoli eisoes yn y DU, sydd wedi eu targedu at ardaloedd fydd yn cael y budd mwyaf (megis mewn lleoliadau cefn gwlad), a defnyddio staff y gwasanaeth tân ac achub sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardaloedd hynny i gyrraedd y claf yn gyflym a darparu gofal nes i'r ambiwlans gyrraedd.

Y manteision amlwg o ran cyflwyno cynlluniau cyd-ymatebwyr mewn rhannau o Ogledd Cymru yw y gellir arbed bywydau. Wedi'r cyfan, mae'r criwiau tân ac achub wedi cael eu hyfforddi i achub bywydau, ac mae'r Awdurdod yn llwyr gefnogi'r cynlluniau hyn mewn egwyddor.

Yr anhawster i'r Awdurdod, fodd bynnag, yw mai ar gyfer y criw yn bennaf y mae'r offer cymorth cyntaf sydd ar yr injan dân, nid ar gyfer ymdrin ag argyfyngau meddygol ymhlith y cyhoedd. Byddai angen offer mwy soffistigedig, ac ystod ehangach o gyflenwadau meddygol, na'r hyn

sydd ar yr injan dân ar hyn o bryd.  Hefyd, byddai angen rhagor o hyfforddiant i staff tân ac achub er mwyn iddynt allu rhoi cymorth cyntaf i achub bywydau.  Byddai raid i gost hyn ddod o'r gyllideb tân ac achub, a byddai hynny'n rhoi rhagor o bwysau ar feysydd eraill yn y gweithgarwch tân ac achub.  At hynny, efallai na fyddai aelodau Undeb yr FBU yn cytuno'n rhwydd i ymgymryd â'r gwaith hwn.

## RHAI PRYDERON CYFFREDIN YNGLŶN Â CHYD YMATEB

## CLUDO POBL I'R YSBYTY

<u>A fydd pobl sy'n ddifrifol wael yn derbyn ymweliad gan injan dân yn hytrach nag ambiwlans?</u>

Na - bydd ambiwlans yn dal i fynychu mor gyflym ag sy'n bosib; byddai'r cynllun cyd ymateb yn golygu cael staff y gwasanaeth tân ac achub yn cyrraedd ychydig o flaen yr ambiwlans i gymryd gofal o'r claf yn y munudau hanfodol cyntaf hynny.

## Y SGILIAU FYDDAI EU HANGEN AR Y DIFFODDWYR TÂN

<u>Ond nid parafeddygon yw staff tân ac achub – efallai nad oes ganddyn nhw'r sgiliau angenrheidiol i gymryd gofal o bobl sy'n ddifrifol wael.</u>

Mae'r criwiau tân eisoes wedi eu hyfforddi i ymdrin â sefyllfaoedd lle gall pobl fod yn dioddef o sioc, anawsterau anadlu, llosgiadau ac esgyrn wedi torri.

Fel sy'n digwydd gydag ymatebwyr cyntaf cymunedol, byddai gan ddiffoddwyr tân sy'n gyd ymatebwyr, yr offer, a byddent wedi derbyn yr hyfforddiant i ymdrin ag ystod o argyfyngau meddygol cyffredin, yn cynnwys defnyddio diffribiliwr sy'n dadansoddi rhythmau calon yn awtomatig er mwyn gwneud diagnosis o drawiadau ar y galon, ac i roi triniaeth sioc drydan os oes angen.

## PARODRWYDD DIFFODDWYR TÂN I YMATEB

<u>Ond oni wnaeth achos diweddar yn yr Uchel Lys ffafrio safiad Undeb y Frigâd Dân nad yw cyd ymateb yn rhan o gytundeb cyflogaeth y diffoddwyr tân?</u>

Do, ond nid oedd y dyfarniad yma'n ymwneud â'r mater a ddylai diffoddwyr tân ymgymryd â'r rôl achub bywyd yma ai peidio - yn wir, roedd y barnwr yn annog yr awdurdodau tân ac Undeb yr FBU i gychwyn trafodaethau er mwyn gwneud i'r cynllun weithio.  Yr hyn dan sylw oedd a oedd y cytundeb presennol yn cynnwys cyd-ymateb fel rhan o swydd y diffoddwyr tân.

Yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael, mae'r opsiwn i ddiffoddwyr tân gymryd y rôl hon yn dal i fodoli.

## ARGAELEDD Y CRIWIAU TÂN I YMATEB

<u>Beth os yw'r criwiau tân mor brysur ym mynychu argyfyngau brys meddygol fel na fyddan nhw'n gallu mynychu argyfyngau tân ac achub?</u>

Mae'n arferol i staff yr ystafell reoli ymdrin â mwy nag un digwyddiad ar unwaith - mae'r gwasanaeth yn wastad wedi cael y gallu i ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Os yw'r gwasanaeth wedi'i ymrwymo'n llawn mewn un ardal, yna byddai'r opsiwn yn parhau i beidio â derbyn cais gan y gwasanaeth ambiwlans.

## AMSER A CHOST YR HYFFORDDIANT A'R OFFER

<u>Ond onid ydi'n wir mai'r oll fyddai hyn yn ei wneud, mewn gwirionedd, yw llenwi bwlch yn y gwasanaeth ambiwlans drwy drosglwyddo peth o'r pwysau ariannol i'r gwasanaeth tân ac achub?</u>

Er y manteision gwirioneddol o weithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans, nid yw'r awdurdod yn cynnig ei fod yn ymestyn ei gyllideb bresennol i'r maes hwn o gydweithio. Mae argaeledd personél tân, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn gwneud y cynllun yn gynnig atyniadol, ond byddai angen adnoddau gwarantedig digonol i sicrhau ei lwyddiant.

### Cwestiwn Ymgynghori

**A ddylai'r Awdurdod gyflwyno cynlluniau cyd-ymateb yng Ngogledd Cymru, o ystyried y goblygiadau ariannol a gwrthwynebiad posib o du Undeb yr FBU?**

## CYNLLUN LLEIHAU RISG 4 – YMAGWEDD GYFFREDIN AT ARBED ARIAN

Mae parch mawr tuag at y gwasanaeth tân ac achub fel un o'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf poblogaidd sy'n ennyn hoffter parhaus o du'r cyhoedd. Ni fyddem am newid hynny.

Fodd bynnag, er bod hyn yn swnio'n od, y drwg gyda'r poblogrwydd hwn yw bod unrhyw newidiadau yn dueddol o boeni pobl nes y gallai unrhyw effaith ariannol a fyddai'n dod yn sgil peidio â newid, fynd ar goll yng nghanol ymlyniad emosiynol.

**Pan fyddan nhw'n wynebu ffyrdd amgen o gyflwyno gwasanaeth tân ac achub, mae pobl yn reddfol yn credu bod yr hyn sy'n bodoli'n barod yn ddiogelach na'r hyn sy'n cael ei gynnig.**

Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb, ac mae ei sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarn. Fodd bynnag, nid oes modd gwadu y bydd y blynyddoedd nesaf yn debygol o herio'r rheolwyr cyllid mwyaf medrus ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, sef y rheswm pam rydym ni wedi ei gynnwys yn y cynllun lleihau risg hwn.

Mae'r mwyafrif o weithrediadau'r gwasanaeth tân ac achub yn cael eu talu o'r arian a gyfrannir i gynghorau sir gan fusnesau a phreswylwyr. Felly, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng faint mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ei gostio a faint sydd ar ôl i dalu am wasanaethau'r cynghorau.

Mae bron 80% o gyllideb yr awdurdod tân ac achub yn cael ei wario ar gostau cyflogi. Mae'r 20% arall yn cael ei wario ar (er enghraifft) – safleoedd, systemau cyfathrebu a chyfrifiaduron, cerbydau, tanwydd, offer, hyfforddi a gweinyddu.

Byddai unrhyw gynnydd yng nghyllideb tân ac achub yn cael ei adlewyrchu yn y swm o arian y disgwylir i bob cyngor sir yng Ngogledd Cymru ei gyfrannu. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac yn ystod y cyfnod o adferiad economaidd, mae'n anorfod y gallwn ni ddisgwyl y bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch cyllido.

Gan dybied bod gwneud yr un fath a chostio'r un fath yn beth amhosib gan na fydd prisiau'n aros yr un fath, gellir mabwysiadu chwe ymagwedd tuag at arbed arian:

| | **Costio llai** | **Costio mwy** |
|---|---|---|
| **Gwneud llai** | Strategaeth ❶ Byddai hyn yn cael gwared â phethau `dianghenraid', ond mae perygl o siomi'r cyhoedd, methu cyrraedd safonau iechyd a diogelwch cyfreithiol, a chynyddu'r pwysau ar y staff sy'n weddill. Gallai hyn, hefyd, olygu gwasanaeth sy'n gynyddol hen ffasiwn, sydd ddim yn gallu addasu i heriau a chyfleoedd newydd. | Strategaeth ❷ Byddai'n anodd cyfiawnhau hyn fel strategaeth fwriadol, ond gallai fod yn ganlyniad anochel i sefyllfa lle mae'r Awdurdod yn methu lliniaru effeithiau costau sy'n codi. Gallai beryglu safle'r Awdurdod. |
| **Gwneud yr un fath** | Strategaeth ❸ Byddai'n anodd cyflawni hyn heb orfod rhoi'r gorau i'r gwelliannau sydd wedi eu cynllunio, a gostwng yr 80% o'r gyllideb sy'n cael ei wario ar gostau gweithwyr ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn anodd ei gynnal o flwyddyn i flwyddyn. | Strategaeth ❹ Dyma'r opsiwn `gwneud dim' a allai gael ei weld fel methiant yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn ôl disgwyliad y llywodraeth y dylai'r Awdurdod gydweithio gyda rhannau eraill o'r sector gyhoeddus. Byddai hefyd yn methu'r cyfle i ddatblygu'r gwasanaeth i gwrdd â heriau yn yr amgylchedd allanol. |
| **Gwneud mwy** | Strategaeth ❺ Hyd yn oed fel strategaeth tymor byr byddai angen lefel uchel o | Strategaeth ❻ Gallai gwneud achos i barhau i gynyddu costau fod yn beth |

| | | |
|---|---|---|
| | hyblygrwydd a chytundeb o du'r staff. Gallai arwain at orfod bod yn gynnil, a gallai fod yn gamarweiniol petai'r costau gwirioneddol yn cael eu gorfodi ar rannau eraill o'r sector cyhoeddus. Hefyd, gallai fod yn anodd ei gynnal yn y tymor hir, a gallai rwystro adferiad pan fydd yr economi'n gwella eto. | heriol i gychwyn, oni bai fod y fantais o wneud mwy yn amlwg i'w weld yn gostwng y galw mewn rhannau arall o'r sector cyhoeddus. |

**Cwestiwn Ymgynghori**

**Gan edrych ar y tabl o opsiynau, pa strategaeth y dylai'r Awdurdod ei dilyn?**

**I GRYNHOI**

Dyma grynhoi rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn:

CLIR 1 – GWEITHIO GYDA PHOBL IFANC

Petai cyllid allanol ar gyfer gwaith ieuenctid yn cael ei dynnu oddi arnom, a ddylai'r Awdurdod roi gorau i'w weithgareddau ieuenctid, ynteu a ddylai ailgyfeirio ei adnoddau o'i wasanaeth eraill – rhai rheng flaen o bosib – er mwyn gallu parhau â'r gwaith hwn?

CLIR 2 – SYSTEM DYLETSWYDD RAN AMSER Y DYFODOL

Ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod ailgyfeirio ei adnoddau o'i weithgareddau eraill, a chynyddu hyblygrwydd yn y ffordd y mae'n cyflogi staff ar y System Dyletswydd Ran Amser, a hynny er mwyn cynnal a gwella argaeledd criwiau tân mewn ardaloedd gwledig?

CLIR 3 – CYD-YMATEB

A ddylai'r Awdurdod gyflwyno cynlluniau cyd-ymateb yng Ngogledd Cymru, o ystyried y goblygiadau ariannol a gwrthwynebiad posib o du Undeb yr FBU?

CLIR 4 – YMAGWEDD GYFFREDIN AT ARBED ARIAN

Pa strategaeth a ddylai'r Awdurdod anelu ati mewn perthynas â gwerth am arian, fforddiadwyedd a darparu gwasanaethau'n effeithlon?